CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Medi 2020, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, C McGregor, D Roberts, A C Jones, A Wyn, E Williams, D Rees (Cyngor Sir), W Williams, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Jones, W Vaughan	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng D Roberts
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21.07.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Llinell wen Dolmeinir – Llyn Cefni - Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir
4.2	**Baw cwn Mynydd Bodafon** – Dywedodd y Clerc bod Cyngor Sir Ynys Môn (a'u partneriaid AHNE) yn gallu gyflenwi "dispensers" am £ 12.50 yr un. Bydd polion yn cael eu cyflenwi (heb unrhyw gost) gan AHNE. Y sefyllfa gorau yw ger biniau gwastraff cyffredinol a bydd y cyngor yn cyflenwi sticeri. Nid oes unrhyw dâl am gasglu gwastraff oherwydd bydd mewn biniau gwastraff cyffredinol. Bydd angen i'r Cyngor Cymuned gyflenwi bagiau (pan fydd stoc y Cyngor Sir wedi dod i ben). Y gost ar gyfartaledd yw £ 23 - £ 38 am 800 o fagiau. Cytunwyd i osod "dispensers" ger Bodafon (Lon y Capel, Talwrn), ar ddiwedd lôn yr ysgol (pen Talwrn), maes parcio Mynydd Bodafon a Llyn Cefni.
4.3	**Baw cwn Talwrn** – gweler 4.2
4.4	**Japanese knotweed** -Bydd y Clerc yn trefnu cael pris
4.5	**Glaswellt ochr y lon, Talwrn** – Dywedodd y Clerc bydd y Cyngor Sir yn trefnu i'r llecyn verge cael ei dorri gan y Gang Cymunedol lleol ac ei ail lefelu.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	FPL/2020/129 Bryn Erin, Tlawrn – mae sylwadau y cyngor wedi cael ei pasio I'r Cyngor Sir
5.2	HHP/2020/175 Bryn Triban, Talwrn – dim sylwadau
	Amgylchedd
5.3	**Biniau baw cwn** – gweler 4.2
	Llofnod…….Cadeirydd 20.10.20

	Priffyrdd
5.4	Glaswellt ochr lon, Talwrn – gweler 4.5
5.5	Cais I wyro llwybr 5 Llanddyfnan – dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Mrs M Ashcroft – gwair Maes y Coed, Talwrn. Cwyn am laswellt sydd wedi gordyfu ym Maes y Coed. Mae'r Clerc wedi trefnu iddo gael ei dorri.Cytunwyd I dalu y cost £60.00 – Glen Jones
6.2	Neuadd Talwrn – Mae pwyllgor Neuadd y Pentref yn bwriadu codi hysbysfyrddau i ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â Covid-19. Y ffi cais cynllunio yw £ 120, ond £ 60 os caiff ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned. Cytunodd yr aelodau i dalu'r ffi o £ 60
6.3	Cyfoeth Naturiol Cymru – bwriadu gwneud Gwaith ar y Gors. Bydd y Clerc yn gofyn am mwy o fanylion.
6.4	Rhodd Bulkeley Price – cais I gosod fainc ym Mynwent Capel Coch er cof am ei thad – dim gwrthwynebiad
6.5	Friends of Friendless Churches - Nododd ymateb nad ydyn nhw wedi cymryd yr Eglwys drosodd yn Capel Coch ac nad oes ganddyn nhw unrhyw fwriad i wneud hynny. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Eglwys yng Nghymru.
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**Adolygiad ariannol chwarterol -** Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Eglwys Sant Mihangel – gweler 6.5
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Tai Haf
9.2	Y Gofeb
	Llofnod…….Cadeirydd 20.10.20